wq35.5 158

# DAKRU;

NEU

## LINELL I'R BYD,

### AC ALARWM I'R EGLWYS;

SEF,

Ychydig Fyfyrdodau gwedi eu Cyfansoddi ar Gân,

*ODDIAR YSTYRIAETH O FARWOLAETH*

## MR. ABRAHAM REES,

GERLLAW ABERTAWY;

*Yr hwn a fu farw yn 54 oed, Ebrill 14, 1823,*

---

GAN DAFYDD EFANS, TREFORYS.

---

"Trwy ffydd Abraham pan ei galwyd a ufyddhaodd."
HEB. xi. 8.

---

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA SEREN GOMER. GAN J. HARRIS

x205 313719

# GALARWM I'R EGLWYS, &c

1 AMSER sydd yn myn'd fel mellten
O'r Gorllewin tua'r Dwyren,
Ar ei aden gellir gweled
Holl hil Adda'n myn'd ar gerdded.

2 Rhyw newyddion mae e'n gario
I'r holl fyd wrth fyned heibio;
Ganddo weithiau mae digrifwch
A phryd arall lwyth o dristwch.

3 Yn ei gerbyd yn ddiweddar
Y ca'w'd newydd barodd alar,
Ac a roddodd do fawr ofid,
A phob mynwes gafodd ergyd.

4 Abra'm Rees sydd wedi marw
Teithio wnaeth y ce'nfor garw;
Heddyw mae mewn byd uwch wybren,
Ninnau yma ar y ddaeren.

5 Pedwaredd dydd ar ddeg o Ebrill
Cafodd Abra'm ddyrnod erchyll,
Gan yr angeu glas a'i gleddau,
Dan ei ergyd fe aeth adre'.

6 Oedran Brenin y Breninoedd
Pan aeth Abra'm mewn i'r nefoedd,
Deunaw cant a thair ar hugain,
Heddyw mae mewn byd uwch haulwen.

7 Pedair blwydd ar ddeg a deugain
Oedd ei oed yn myn'd uwch wybren,
At y dyrfa sydd yn moli
'R Iesu'n gyson am eu cànu.

W. 17. 41 (P)

8 Fe arddelodd Frenin Sion
Dros ddeng mlynedd yn bur gyson;
Yn y Mynydd Bach yn ddilys
Gyda'r seintiau'n moli'n hwylus.

9 Gweddaidd ydoedd yn ei eiriau,
Moesol iawn ei ymddygiadau,
Parchus ydoedd trwy'r holl ardal
Am nad oedd yn ddyn anwadal.

10 'Roedd o dymher fwynaidd hawddgar
Para wnaeth yn elusengar;
Mae'r tylodion trwy'r ardaloedd
Ar ei ol mewn galar-wisgoedd.

11 Yn ei angladd 'roedd 'rwy'n credu
Fil a hâner yn galaru;
Achos colli brawd o'r eglwys,
A golygydd addas cymhwys.

12 Wrth y tŷ dechreuwyd canu
'Nol yr elor gael ei chodi,
A'r holl dyrfa oedd yn wylo
Achos myn'd ag ef i'w briddo.

13 Canu wnawd trwy Abertawe
Yn alarus mewn rheolau;
Canu wnaethom y rhan amla'
Nes i'r capel daeth yr angla'.

14 Mr. Dafis, Abertawe
Safodd fynu ar y muriau,
I weddio a phregethu
Yno cafodd torf eu porthi.

15 Testyn Dafis sydd i'w ganfod,
Yn Datguddiad ddegfed benod,
Darllen yno'r chwechfed adnod,
Ti gai wel'd y geiriau hynod.

16 Mr. Efans yn ganlynol
I'r areithfa aeth yn wrol,
A phregethu wnaeth o ddifri'
Am ogoniant gwlad goleuni.

17 Cym'rodd destyn o'r Colosiaid,
Gael cysuro'r plant ymddifaid;
Yn y benod gyntaf yno,
A'r ddauddegfed wers yn gryno.

18 O'i flaen aeth ei briod fwynaidd
I'r gogoniant uwch dwy flynedd,
Yn ol oesi gyda'u gilydd,
A chyd wledda yn y Mynydd.

19 Bet' ac Abra'm ga'dd eu derbyn
Ar 'r un Sabbath a'u mwyn bleutyn,
At y praidd sy'n awr yn wylo
Yn y Mynydd Bach yn gryno.

20 Achos colli Abra'm ffyddlon
A fu'n cario'r arch yn gyson,
Yn rheolaidd iawn a diwyd
Nes daeth terfyn ar ei fywyd.

21 Gwedi darfod a phregethu,
Maes i'r fynwent awd i gladdu,
Abra'm Rees 'run bedd a'i briod
Yn y pridd yn ail gyfarfod.

22 Wrth y beddrod y gweddiodd
Mr. Efans dros y lluoedd,
Ag oedd yno yn galaru
Am fod Abra'm 'n cael ei gladdu.

23 Galar meddwl oedd wrth 'madael
A brawd anwyl mwynaidd tawel,
'Rhwn fu yma yn yr eglwys
Yn cyd-deithio tua Pharadwys.

24 Gwedi bod yn cyd-ymdrechu
Codi baner Crist i fynu,
Gyda'n gilydd yn milwrio
'Nerbyn satan yn ddiflino.

25 Mae pum' plentyn hawddgar iddo,
Ar ei ol yn dyfal wylo,
Gwedi colli eu rhieni
A fu'n dirion wrth eu mhagu.

26 Jane a Dafydd ga'dd eu plygu
Gan yr Arglwydd i broffesu,
Cyn i'w tad a'u mam eu gado
Ei gweddiau ga'dd eu gwrando.

27 Hoff waith Abra'm oedd gweddio
Ar yr Arglwydd yn ddiflino,
Dros ei blant bob hwyr a boreu
Hyd nes hedodd tuag adre'.

28 Ac ni ad'odd ddim o'i deulu
Ar ei ol heb ynddo weddi;
Dau o'i blant sydd eto'n cynnal
Achos Iesu yn yr anial.

29 John a Dafydd, Jane a Mari,
Ac Ann fach gwrandewch o ddifri';
Rhoddaf i chwi air o gynghor
Cyn helaethu dim yn rhagor.

30 Dafydd Rees o paid a wylo
Er dy fod yn cael dy flino,
Aml ddrygau gaiff y cyfiawn,
Nid oes yma gysur cyflawn.

31 Er nad oes dedwyddwch yma,
Edrych fry tua phen Calfaria,
Ti gai weled Iesu'n prynu
Gwir gysuron i dy loni.

32 Mae'th rieni gyda'r seintiau
Heddyw'n chwareu eu telynau,
A'u holl galon yn clodfori
'Roen fu farw er eu prynu.

33 Jane Rees fwynaidd na fydd bruddaidd,
Llefain llawer nid yw weddaidd,
Pan bo'r Arglwydd yn cymeryd
Pryd y myno ffwrdd y bywyd.

34 Duw sy'n aml iawn yn cym'ryd
Ffwrdd ei dlysau cyn del drygfyd,
Ato'i hunan i gael gwledda
Ar ddanteithion pen Calfaria.

35 Mae dy dad a'th fam yn moli
Yn y nefoedd gyda'r teulu,
Heb un gofid yn eu mhynwes
Gyda'r-gwaith o hyd yn gynes.

36 Tithau fyddo 'nawr yn fywiog
Yn gwasanaethu'r Hollalluog,
Fel y byddot yn wir barod
Cyn del angeu i ro'i it ddyrnod.

37 Mari Palmer gwrando dithau
Arnai'n d'anerch mewn byr eiriau,
Gyda golwg i dy ddeffro
Cyn del angeu i dy daro.

38 Ceisia'n ddiwyd 'nawr mewn gweddi
Am feddiannu Duw'th rieni,
'Rhwn a ddichon i dosturio
Wrth dy enaid a'i gysuro.

39 'Nawr yw'r amser cymeradwy,
Cyn y del y dydd ofnadwy,
gael modd i gadw'th enaid,
Rhag ei larpio gan gythreuliaid.

40 Nid oes achos it hiraethu,
Er i'th dad i gael ei gladdu,
Ond galara yn wastadol
Eisiau medri byw'n fwy duwiol.

41 John Rees mwynaidd mwy na wyla,
Am nad yw'th rieni yma;
Maent hwy heddyw fry yn canu,
Yn ardaloedd gwlad goleuni.

42 Nid oes arnynt unrhyw fethiant
Gyda'r seintiau mewn gogoniant;
Aur delynau sydd yn chwareu,
Gan y llu i'r cyfaill goreu.

43 Hyn ddymunaf arnot Ioan,
'Mofyn crefydd 'nawr yn fuan;
Hon wrth fyw a hon wrth farw,
Yn mhob man a fyn dy gadw.

44 Ti Ann Rees yw'r ieuengaf blentyn
Ddarfu'th dad a'th fam ei dderbyn,
Gan yr Arglwydd mewn modd prydferth,
Yn y byd sy'n llawn o drafferth.

45 Tad 'r ymddifaid a'th fugeilio,
Ac a'th ddysgo i weddio,
Fel y caffot dy addasu
I gyfarfod a'th rieni.

46 Chwi'r tri brawd sy'n aml wylo,
A'ch dwy chwaer sy'n cyd-och'neidio,
Ar ol Abra'm eich brawd ieuenga',
Aeth i'r nefol wlad i wledda.

47 Chwithau gaffo eich aeddfedi
I fyn'd ato i glodfori,
'Rhwn fu'n dyoddef loesau chwerwon
Pan yn marw dan yr hoelion.

48 Iesu Grist a'i holl gyflawnder
Gaffoch feddu oll bob amser ;
Fe yn unig all eich cadw
Ar eich taith trwy'r anial garw.

49 Draw ac yma mae e'n ddigon,
Ac yn nyfnder mawr yr afon ;
Pwyswch arno ef yn ddiwyd,
Ac fe'ch dwg i dir y bywyd.

50 Dyma ydyw fy nymuniad
Drosoch chwi sydd yn ymddifaid,
Ar i'r Arglwydd eich bendithio
A phob bendith ag a feddo.

51 'Nawr rwy'n gwel'd bod rhaid rho'i fyny,
Er mor dda sydd genyf ganu,
I'r duwiolion yn wastadol
Sydd yn myn'd i'r wledd drag'wyddol.

52 Chwi a finnau caffoi'n oleu
Pan yn rhydio afon angeu,
Heb un och! yn ein cydwybod
Pan bo'n hamser yma'n darfod.

D. S. Na fydded i neb argraffu y Farwnad hon heb genad yr Awdwr.